

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Torfaen

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Torfaen i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Torfaen wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Torfaen wedi cyflawni 6 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 3.

Mae gwasanaeth llyfrgell Torfaen yn parhau i gyflwyno tystiolaeth dda o gryfder ei ddarpariaeth yn cefnogi'r agenda iechyd a lles, a rhaid canmol gwaith ei Wasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Iechyd a Lles. Fodd bynnag, mae lefelau isel staffio a buddsoddi yn anochel yn effeithio ar gapasiti'r gwasanaeth, a chafwyd gostyngiad drwyddi draw yn y defnydd ar y gwasanaeth, wrth i nifer yr ymwelwyr, benthyciadau llyfrau a nifer yr aelodau gweithredol oll ostwng yn 2017-18. Er hynny, mae croeso i ddatblygiad Strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth, a bydd hon yn helpu i lywio datblygiad y gwasanaeth yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag mae adnoddau i'r gwasanaeth, yn enwedig y gyllideb deunyddiau, yn parhau i fod yn destun pryder, ac er y cynigir rhywfaint o sicrwydd na fydd unrhyw ostyngiadau pellach i'r gyllideb ar ôl 2018-19, bydd yr arbedion arfaethedig o £200,000 eleni yn sicr yn effeithio ar wasanaeth sydd eisoes yn fregus.

- Cyflwynodd Torfaen dair astudiaeth achos sy'n dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth yn ei chael. Roedd 90% o'r oedolion a holwyd yn credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu ychydig, a chafwyd cynnydd yn y nifer sy'n cael cymorth drwy hyfforddiant anffurfiol.
- Cafwyd gostyngiad yn gyffredinol yn y lefelau defnydd, gan gynnwys ymweliadau corfforol, benthyciadau llyfrau, aelodaeth llyfrgell ac yn arbennig yn nifer y benthycwyr gweithredol, a'r perfformiad islaw cyfartaledd Cymru yn gyffredinol.
- Mae'r gyllideb deunyddiau wedi gostwng ymhellach yn 2017-18, ac mae perfformiad yn erbyn y targedau derbyniadau yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Cydnabyddir yr her o flaenoriaethu yn yr amgylchiadau hyn, ond heb fuddsoddiad ychwanegol mae'n anodd gweld sut y gellir gwella perfformiad yn y maes hwn.
- Mae lefelau staffio wedi'u cynnal yn fras, ond ar lefel sy'n is na chanolrif Cymru. Er bod y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn staff proffesiynol, ac yn un o'r ychydig awdurdodau yng Nghymru i gyrraedd y targed yn y maes hwn, mae sefyllfa'r staff cyffredinol yn parhau i fod yn destun pryder.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, ond mae'r arbedion arfaethedig i'r gyllideb a nodir ar gyfer 2018-19 yn debygol o gael effaith bellach ar berfformiad y gwasanaeth.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Torfaen yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae gan y gwasanaeth ethos partneriaeth gref, gan gydweithio o fewn y cyngor, yn allanol ac â'r trydydd sector. Roedd yn bartner gwreiddiol yn y gwasanaeth rhanbarthol Books4U, ac mae'n cymryd rhan yn rhagweithiol mewn mentrau rhannu adnoddau ac wrth gynnig adnoddau ar-lein i gwsmeriaid. Mae ymgynghoriad cyhoeddus diweddar wedi bwydo i mewn i ddatblygu strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth pum mlynedd, sydd bellach ar gael ar wefan y gwasanaeth.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Torfaen yn cyflawni 6 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni 3 o'r dangosyddion.

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Ni fu newid mawr yn y perfformiad cyffredinol o'i gymharu â blwyddyn olaf y bumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Torfaen ei arolygon defnyddwyr ym mis Ionawr 2018 fel rhan o ymarfer ymgynghori ehangach. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu, sef 73%, ychydig yn is na'r 96% a adroddwyd yn y pumed fframwaith, ac o bosibl mae'n adlewyrchu cynnwys yr arolwg mewn ymarfer ehangach, lle nad oedd cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion lleol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	73%	6/6	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	90%	4/7	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	98%	10/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Torfaen dair astudiaeth achos o'r fath, er y gellid wedi cyflwyno tystiolaeth gryfach o'r effaith ar y cyfranogwyr:

- Clwb Lego - clwb pob pythefnos sy'n hyrwyddo'r gwasanaeth llyfrgell i gynulleidfa oedol iau. Mae thema i bob sesiwn, gan helpu plant i ddatblygu meddwl mathemategol rhesymegol a datrys problemau ochr yn ochr â'u sgiliau iaith a geirfa. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau newydd, yn meithrin hyder ac yn cael hwyl.

- Darllenwch i mi – yn y cynllun hwn mae gwirfoddolwyr yn ymweld yn wythnosol i ddarllen yn uchel i rywun sy'n methu â darllen drostynt eu hunain oherwydd afiechyd neu anabledd. Mae'r gwasanaeth yn rhoi manteision therapiwtig a phleser cwmni i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae gwirfoddolwyr yn rhannu eu brwdfrydedd dros ddarllen, ac mae teuluoedd / gofalywr hefyd yn elwa.
- Llyfrgelloedd sy'n Ymgysylltu – prosiect rhwng cenedlaethau (wedi'i ariannu gan Carnegie / Ymddiriedolaeth Wellcome) ar y thema byw yn annibynnol ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys trafodaethau ar faterion iechyd a chymdeithasol perthnasol. Dros gyfnod o dri mis, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau mewn llyfrgelloedd, ysgolion a chartrefi preswyl, gan ddod â phlant a phobl hŷn at ei gilydd.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Torfaen ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17	
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	83%	4/7	24%	83%	94%	77%
c) iechyd a lles	77%	3/7	33%	65%	95%	63%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	6/7	90%	98%	100%	97%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	95%	2/7	88%	91%	98%	90%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	5/7	93%	99%	100%	96%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	98%	3/7	93%	97%	99%	96%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	8.5	6/6	8.5	9.1	9.2	9.3
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	32	11/22	10	32	238	31
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	385	3/22	15	199	473	340
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	187	16/22	82	228	684	196
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,491	15/22	2,501	4,047	7,014	3,608
b) rhith-ymweliadau fesul pen	700	14/22	243	866	2,211	792
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	107	21/22	100	154	229	110
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	25	19/22	4	68	663	

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen [^]	8	15/22	5	9	14	8
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	28%	11/22	14%	27%	67%	29%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	11	19/21	3	31	196	8
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	548	16/21	40	1,346	11,939	528
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£11,450	13/21	£7,047	£11,915	£17,771	£10,527
b) % ar staff	67%	8/21	44%	63%	75%	72%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	15/21	4%	13%	25%	13%
% ar offer ac adeiladau	3%	15/21	0%	4%	20%	2%
% ar gostau gweithredol eraill;	19%	10/21	0%	18%	37%	12%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	14/20	£0	£338	£17,432	£0
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£2.04	7/21	£1.24	£1.82	£2.41	£2.28
DA 16 Oriau agor [#]						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.00%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

[^] am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

[#] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Torfaen ei ddau arolwg defnyddwyr ym mis Ionawr 2018, gan wneud hynny fel rhan o ymarfer ymgynghori ehangach, a allai fod wedi dylanwadu ar y canfyddiadau. At ei gilydd, mae yna feysydd gwelliant o'u cymharu â'r arolygon o'r fframwaith diwethaf, gyda 98% o oedolion yn credu bod y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Fodd bynnag, mae lefelau bodlonrwydd ymysg pobl ifanc wedi gostwng; caiff hyn ei briodoli i newid methodoleg yr arolwg. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer datblygiad unigol, ac mae ffocws cryf yn amlwg ar wasanaethau iechyd a lles. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu ychydig, a chafwyd mwy o gynnydd yn y nifer a gafodd cymorth hyfforddiant anffurfiol, a'r niferoedd yn hyn o beth yw'r trydydd uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Torfaen yn dal i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell. Roedd y nifer yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell wedi gostwng fodd bynnag, felly hefyd nifer yr ymweliadau corfforol a'r benthyciadau llyfrau yn

gyffredinol, gyda pherfformiad ar y cyfan yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Nodir bod cydleoli'r llyfrgell â gwasanaethau eraill yn parhau i ddylanwadu ar nifer yr ymwelwyr. Mae aelodaeth y llyfrgell hefyd wedi gostwng, yn dilyn cynnydd yn 2016-17, ond mae'r perfformiad yn hyn o beth yn gymharol gryf, yn enwedig o edrych arno gyferbyn â'r gostyngiad pellach yn nifer y benthycwyr gweithredol, lle mae perfformiad y gwasanaeth ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mewn cyferbyniad â'r darlun cyffredinol hwn o ostyngiad yn y lefelau defnydd, cafwyd cynnydd sylweddol ym maes benthyciadau clyweledol / lawrlwythiadau electronig.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Yn debyg i wasanaethau eraill yng Nghymru, cwtogodd Torfaen ar ei gronfa lyfrau yn 2017-18, ac mae'r gwariant ar dderbyniadau a deunyddiau fesul pen y boblogaeth ill dau yn llawer is na'r lefelau gofynnol. Mae cyfran y gyllideb deunyddiau a ddyrennir i adnoddau plant hefyd wedi gostwng, ac mae dirywiad parhaus mewn gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, gyda thargedau yma hefyd wedi'u methu o gryn dipyn. Cydnabyddir yr her o osod blaenoriaethau pan fo'r gronfa lyfrau gyffredinol ynnddi ei hun mor isel, a nodwyd y galw isel am ddeunyddiau Cymraeg (lle mae'r benthyciadau ymhlith yr isaf yng Nghymru) yn ffactor. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron a'r defnydd arnynt wedi'u cynnal yn fras, er mai'r duedd mewn llawer o awdurdodau eraill yw gostyngiad yn y nifer sy'n eu defnyddio. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau hefyd wedi gwella.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staff ar y cyfan yn debyg i 2016-17, gyda staff cyffredinol yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru, ond mae'r awdurdod yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer staff cymwysedig, sef un o saith awdurdod yn unig i wneud hynny. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer hyfforddiant staff / datblygiad proffesiynol wedi gwella ychydig, gyda'r ddwy elfen hon wedi'u cyflawni. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr hefyd wedi cynyddu, a'r mwyafrif ohonynt yn ymwneud â gweithredu'r cynllun Darllenwch i Mi.

Mae'n galonogol gweld bod cyfanswm cyllideb y gwasanaeth wedi codi ers 2016-17, er y nodir fod costau gweithredol y tu hwnt i'r gyllideb deunyddiau a staffio i gyfrif am hyn yn bennaf. Ceir cyfeiriad hefyd at yr angen i wneud arbedion cyllidebol o £200,000 yn 2018-19, sy'n debygol o gael effaith bellach ar berfformiad y gwasanaeth. Er bod cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi'u cynnal ar lefelau 2016-17, yr hyn a gynigir gan Torfaen yn hyn o beth yw'r isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth, ac mae'r gwasanaeth yn un o chwech yn unig nad ydynt wedi cyrraedd y targed a osodwyd.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Adroddodd Torfaen am ei gyfraniad penodol at flaenoriaethau yn ymwneud ag iechyd a lles trwy ei Wasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Iechyd a Lles. Nodwyd hefyd ei ffocws ar ddatblygiad unigol, trwy gefnogaeth i gyrhaeddiad addysgol a llythrennedd gwybodaeth a digidol. Wrth ymateb i flaenoriaethau corfforaethol Torfaen mae'r gwasanaethau hefyd yn canolbwyntio ar gefnogaeth i grwpiau sy'n agored i niwed.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, cyfeiriodd Torfaen at y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2017-18 i ddatblygu strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth. Nodir bod y Strategaeth hon wedi gorfod ystyried gofynion y Cyngor i gael arbedion cyllideb yn 2018-19, ond na ragwelir y bydd gostyngiadau pellach y tu hwnt i hyn. Bydd mabwysiadu'r Strategaeth hon yn llunio datblygiad y gwasanaeth yn y flwyddyn i ddod.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Torfaen yn parhau i gyflwyno tystiolaeth dda o gryfder ei ddarpariaeth yn cefnogi'r agenda iechyd a lles, a rhaid canmol gwaith ei Wasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Iechyd a Lles. Fodd bynnag, mae lefelau isel staffio a buddsoddi yn anochel yn effeithio ar gapasiti'r gwasanaeth, a chafwyd gostyngiad drwyddi draw yn y defnydd ar y gwasanaeth, wrth i nifer yr ymwelwyr, benthyciadau llyfrau a nifer yr aelodau gweithredol oll ostwng yn 2017-18. Er hynny, mae croeso i ddatblygiad Strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth, a bydd hon yn helpu i lywio datblygiad y gwasanaeth yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag mae adnoddau i'r gwasanaeth, yn enwedig y gyllideb deunyddiau, yn parhau i fod yn destun pryder, ac er y cynigir rhywfaint o sicrwydd na fydd unrhyw ostyngiadau pellach i'r gyllideb ar ôl 2018-19, bydd yr arbedion arfaethedig o £200,000 eleni yn sicr yn effeithio ar wasanaeth sydd eisoes yn fregus.